**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2014**

## PENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynnig ailbenodi un aelod annibynnol i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

## Cyflwyniad

2 Yn ystod 2003, a hynny yn unol â gofynion deddfwriaethol, fe wnaeth yr Awdurdod sefydlu Pwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, sef pedwar aelod annibynnol a dau sy'n aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub (y Cyng. Brian Dunn a'r Cyng. Jim Evans ar hyn o bryd).

3 Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

4 Yr aelod annibynnol sydd â chyfnod ei swydd yn dod i ben yw David Morris. Mae Mr Morris wedi dweud ei fod yn fodlon cael ei ailbenodi.

5 Cytunwyd eisoes petai angen hysbysebu unrhyw le gwag, byddai angen cynnull panel cynghori yn cynnwys dim mwy na phum aelod, gydag un ohonynt yn aelod lleyg annibynnol o'r panel. Yna, byddai'r panel cynghori yn ystyried y ceisiadau ac yn gwneud argymhelliad i'r Awdurdod ynglŷn â phwy y dylid ei benodi, fel y gwnaed yn y gorffennol.

## Argymhelliad

6 Bod David Morris yn cael ei ailbenodi yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a hynny i ddod i rym o fis Medi 2014 ymlaen, am gyfnod o bedair blynedd.